***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 13 (Cy. 7)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Ionawr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod camgymeriad wedi digwydd wrth lunio Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) 2021(**1**) a wnaed o dan adran 37(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(**2**) ("Deddf 2013").

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cywiro'r camgymeriad hwnnw ac yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pŵer a roddir gan adran 43(10) o Ddeddf 2013.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drennydd y diwrnod y'i gwneir.

**Diwygio Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) 2021**

**2.**—(1) Mae'r Tabl yn yr Atodlen (enwau ac ardaloedd wardiau etholiadol a nifer aelodau'r cyngor) i Orchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) 2021 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yng ngholofn (3), yn lle "Cymuned Marchwiel" rhodder "Cymunedau Erbistog, Marchwiel a Sesswick".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

5 Ionawr 2022

(**1**) O.S. 2021/1113 (Cy. 268).
(**2**) 2013 dccc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("Gorchymyn 2021"), sy'n gweithredu'r argymhellion ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel yr oeddent wedi eu cynnwys yn Adroddiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru dyddiedig mis Tachwedd 2020 ("yr Adroddiad"), gydag addasiadau.

Mae'r Tabl yn yr Atodlen i Orchymyn 2021 ("y Tabl") yn nodi'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir yng ngholofn 3 o'r Tabl. Drwy gamgymeriad hepgorodd yr Adroddiad wybodaeth benodol mewn perthynas â ward etholiadol Marchwiel, ac o ganlyniad nid oedd yr wybodaeth honno wedi ymddangos yng ngholofn 3 o'r Tabl. Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cywiro'r camgymeriad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.